# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 1 Gorffennaf 2015

Rhif Union: 01824712589

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 7 GORFFENNAF 2015** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YNN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 7 - 10)

Nodi ymrwymiadau dinesig a ymgymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**5 COFNODION** (Tudalennau 11 - 20)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd 12 Mai 2015 (copi ynghlwm).

**6 CYLLIDEB 2016/17** (Tudalennau 21 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid (copi ynghlwm) i roi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf a nodi'r cynigion yn Nhabl 1, cymeradwyo'r cynigion yn Nhabl 2 a chynnig pellach a gyflwynwyd gan aelodau etholedig.

**7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 29 - 32)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Gwyneth Kensler (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Ann Davies (Is-Gadeirydd)

Ian Armstrong
Raymond Bartley
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Bill Cowie
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alice Jones
Huw Jones
Pat Jones
Geraint Lloyd-Williams
Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
David Simmons
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Eryl Williams
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

---

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy’n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy’n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by Chairman**

| Dyddiad/Date | Digwyddiad/Event | Lleoliad/Location |
|---|---|---|
| 14.05.15 | Seremoni Dinasyddiaeth<br>Citizenship Ceremony<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice Chairman attended) | Rhuthun/Ruthin |
| 15.05.15 | Agoriad Swyddogol Amgueddfa Corwen<br>Official Opening of Corwen Museum | Corwen |
| 15.05.15 | Cinio Elusennol Maer Y Rhyl<br>Mayor of Rhyl's Charity Dinner<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice Chairman attended) | Y Rhyl/Rhyl |
| 20.05.15 | Noson sefydlu Maer Y Rhyl<br>Mayor of Rhyl's Mayor Making Evening | Y Rhyl/Rhyl |
| 21.05.15 | Lansiad Digwyddiad Barnardo's Launch Event<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice Chairman attended) | Dinbych/Denbigh |
| 22.05.15 | Seremoni Trawst, Ysgol Uwchradd Y Rhyl<br>Beam Ceremony, Rhyl High School | Y Rhyl/Rhyl |
| 22.05.15 | Seremoni Wobrwyo Gwylgyfoeth Sir Ddinbych<br>Denbighshire's Enrichfest Awards<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice Chairman attended) | Rhuthun/Ruthin |
| 22.05.15 | Garddwest/Agoriad Swyddogol Gardd newydd Ysgol y Faenol<br>Garden Party/Official opening of new school garden<br>Ysgol Y Faenol | Bodelwyddan |
| 25.05.15 | Eisteddfod yr Urdd | Caerffili |
| 28.05.15 | Ymweliad Ken Skates AC<br>Visit of Ken Skates AM – Streetgames, St. Mary's Church, Wellington Road<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice Chairman attended) | Y Rhyl/Rhyl |
| 30.05.15 | Penblwydd Priodas/60th Wedding Anniversary of Maldwyn & Brenda Roberts | Rhuddlan |
| 02.06.15 | Noson Wobrwyo Gwirfoddolwyr Ifanc<br>Youth Volunteering Awards Presentation,<br>Ysgol Dewi Sant | Y Rhyl/Rhyl |
| 03.06.15 | Noson Wobrwyo Gwirfoddolwyr Ifanc<br>Youth Volunteering Awards Presentation,<br>Ysgol Clawdd Offa<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice Chairman attended) | Prestatyn |

| | | |
|---|---|---|
| 05.06.15 | Seremoni Wobrwyo Wythnos Gwirfoddolwyr<br>Volunteers Week Award Ceremony | Rhuddlan |
| 06.06.15 | Garddwest Clwb Rotary Llangollen<br>Rotary Club of Llangollen Annual Garden Fete | Plas Newydd,<br>Llangollen |
| 06.06.16 | Cyngerdd 'Welsh Memorial in Flanders' Concert | Llanelwy/St. Asaph |
| 07.06.15 | Seremoni Enwi Bâd Achub Y Rhyl<br>Official naming Ceremony of<br>Class D Lifeboat | Y Rhyl/Rhyl |
| 10.06.15 | Digwyddiad 'Great Denbighshire Menu 2015' Event<br>Ysgol Tir Morfa<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice Chairman attended) | Y Rhyl/Rhyl |
| 11.06.15 | Digwyddiad 'Jyngl' Llyfrgelloedd/Libraries 'Jungle'Event,<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice Chairman attended) | Y Rhyl/Rhyl |
| 11.06.15 | Cyflwyno Lliwiau Newydd i'r Royal Welsh gan Y Frenhines<br>Presentation of Colours to the Royal Welsh by the Queen | Caerdydd/Cardiff |
| 11.06.15 | Ymweliad Carl Sargent i Parc Wledig Loggerheads –<br>Digwyddiad - 'Working with a Changing Climate'<br>Carl Sergeant AM attending<br>' Working with a Changing Climate Event, Loggerheads<br>Country Park<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice Chairman attended) | Loggerheads |
| 14.06.15 | Gwasanaeth Dinesig Cadeirydd Sir y Fflint<br>Chairman of Flintshire's Civic Service | Coed-Llai/Leeswood |
| 18.06.15 | Ymweliad Cyngor Ysgolion Cynradd<br>Primary School Council Visit | Rhuthun/Ruthin |
| 19.06.15 | Cyflwyniad Tystysgrifau – Ysgol Tir Morfa<br>Presentation of Certificates - Ysgol Tir Morfa<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice Chairman attended) | Y Rhyl/Rhyl |
| 19.06.15 | Noson Perfformiad Gwylgyfoeth Sir Ddinbych<br>Denbighshire's Enrichfest Performance Evening<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice Chairman attended) | Llangollen |
| 19.06.15 | Cinio Diwrnod y Lluoedd Arfog, Parc Eirias<br>Armed Forces Day Dinner, Parc Eirias | Bae Colwyn/Colwyn Bay |
| 20.06.15 | Diwrnod Y Lluoedd Arfog Gogledd Cymru<br>North Wales Armed Forces Day | Bae Colwyn/Colwyn Bay |

| | | |
|---|---|---|
| 21.06.15 | Gwasanaeth Dinesig Maer Wrecsam<br>Mayor of Wrexham's Civic Service | Wrecsam/Wrexham |
| 23.06.15 | Penblwydd 100 oed Morfudd Williams, Dolwen<br>100th Birthday Morfudd Williams, Dolwen | Dinbych/Denbigh |
| 23.06.15 | Lansiad Gwyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru<br>NWIMF Launch | Llanelwy/St Asaph |
| 26.06.15 | Digwyddiad – 'Big Bee Day - The Invasion' Event | Rhug, Corwen |
| 26.06.15 | Noson Perfformiad Gwylgyfoeth Sir Ddinbych<br>Denbighshire's Enrichfest Performance Evening | Y Rhyl/Rhyl |
| 28.06.15 | Lansiad 'Henllan Community Miles' Launch<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice Chairman attended) | Henllan |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o’r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 12 Mai 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Ann Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Eryl Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithid, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr Gwasanaethau AD (CR), Ei Anrhydedd y Barnwr Ian Trigger a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) James Davies, Bobby Feeley, Pat Jones, Bob Murray, Barbara Smith a/ac Huw Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 3 PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Rhoddodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Brian Blakeley, araith gan fyfyrio ar ei gyfnod fel Cadeirydd ac amlygodd nifer o ddigwyddiadau yr oedd wedi eu mynychu yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Roedd wedi cael blwyddyn brysur iawn yn mynychu digwyddiadau. Dywedodd ei fod wedi bod yn anrhydedd cael cynrychioli Sir Ddinbych yn ystod digwyddiadau coffau 100 mlynedd ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae ymweld ag ysgolion a chwrdd â phobl ifanc wedi ei wneud yn ymwybodol o'r holl waith sydd wedi ei wneud yn y sir i wella ysgolion.

Mynegodd ei ddiolch i'r Aelodau am ei ethol fel Cadeirydd ar gyfer 2014/15 ac i'r holl swyddogion a’r staff gweithgar yn Sir Ddinbych am wneud ei flwyddyn fel Cadeirydd yn bleser.

Cyflwynodd y Cadeirydd sy'n ymddeol y sieciau ar gyfer yr arian a godwyd i wahanol elusennau yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd:

(i) Derbyniodd Eluned Yaxley, Rheolwr Codi Arian, siec am £1,250 ar ran Hosbis Tŷ Gobaith.
(ii) Derbyniodd Daryl Crowther, Rheolwr Gweithrediadau, siec am £1,250 ar ran RNLI y Rhyl.

Yna, fe gyflwynodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol anrhegion i'w Gaplan, y Parchedig Andy Grimwood, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd, Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd, y Prif Weithredwr, y Cydlynydd Busnes - Swyddog yr Arweinydd, y Gweinyddwr Pwyllgorau ac i'r Rheolwr Cefnogi a Datblygu Aelodau er mwyn cydnabod eu cefnogaeth yn ystod y deuddeng mis diwethaf.

Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Cadeirydd sy'n ymddeol am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2015/2016. Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams y dylid penodi'r Cynghorydd Gwyneth Kensler yn Gadeirydd, gan amlinellu'r rhinweddau a'r profiad personol y byddai'n eu cyfrannu i'r swydd.

Eiliodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, y cynnig gan ychwanegu y byddai'r Cynghorydd Kensler yn Gadeirydd rhagorol ar gyfer y Sir a'i fod yn falch o gefnogi'r enwebiad.

Gan nad oedd unrhyw enwebiad arall, ac yn dilyn pleidlais trwy godi dwylo, etholwyd y Cynghorydd Gwyneth Kensler yn unfrydol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2015/2016.

Dymunodd y Cadeirydd sy'n ymddeol y gorau i'r Cadeirydd newydd i'r dyfodol a rhoddodd Gadwyn Swydd y Cadeirydd iddi cyn iddi lenwi ei Datganiad Derbyn Swydd.

Talodd y Cadeirydd newydd deyrnged i waith y Cadeirydd blaenorol a rhoddodd fathodyn y Cyn Gadeirydd iddo, plac ac anrheg ar ran y Cyngor.

Enwodd y Cadeirydd newydd Gaynor Morgan Rees fel ei chonsort nad oedd, yn anffodus, yn gallu mynychu cyfarfod blynyddol y Cyngor Blynyddol oherwydd ymrwymiadau blaenorol.

Caplan y Cadeirydd newydd ar gyfer y flwyddyn fydd y Parchedig Wayne Roberts ac mae'r elusennau a ddewiswyd fel a ganlyn:

- Y Samariaid
- Mentrau Awtistiaeth
- Y Mudiad Meithrin, er cof am Hywyn Williams.

Ar y pwynt hwn, cyflwynodd y Cadeirydd newydd dusw o flodau i gonsort y Cadeirydd blaenorol i ddiolch iddi am gefnogi'r Cadeirydd yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

## 4 PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd.

Cynigodd y Cynghorydd Martyn Holland y dylid ethol y Cynghorydd Ann Davies yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2015/2016. Cyfeiriodd at brofiad helaeth y Cynghorydd Davies ac at ei blwyddyn fel Maer Rhuddlan yn 2014/2015.

Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cynghorydd Arwel Roberts a bu iddo gyfeirio at waith cymunedol y Cynghorydd Davies.

Gan nad oedd unrhyw gynnig arall, ac yn dilyn pleidlais trwy godi dwylo, etholwyd y Cynghorydd Ann Davies yn unfrydol yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2015/2016.

Rhoddodd y Cadeirydd Gadwyn Swydd yr Is-gadeirydd i'r Cynghorydd Ann Davies a llenwodd y Cynghorydd y Datganiad Derbyn Swydd.

Enwodd yr Is-Gadeirydd newydd ei merch, Jane Hugo, fel ei chonsort.

Bu i'r Arweinwyr Grŵp ac Aelodau gydnabod gwaith y Cadeirydd sy'n ymddeol a llongyfarch y Cynghorwyr Gwyneth Kensler ac Ann Davies ar gael eu hethol yn Gadeirydd ac yn Is-gadeirydd yn y drefn honno.

**Ar y pwynt hwn (10.55 a.m.) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.15 a.m.**

## 5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater brys.

Ar y pwynt hwn:

(a) Talodd y Cynghorydd Eryl Williams deyrnged i Hywyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cwsmeriaid, a fu farw'n ddiweddar. Cafwyd dwy funud o dawelwch er gof amdano.
(b) Bu i'r Cadeirydd longyfarch y Cynghorydd James Davies ar ddod yn Aelod Seneddol dros Ddyffryn Clwyd a diolchodd i Chris Ruane am ei holl waith yn ystod y deunaw mlynedd diwethaf fel Aelod Seneddol dros Ddyffryn Clwyd.
(c) Bu i'r Cynghorydd Hugh Jones longyfarch tîm pêl-droed merched dan 16 Prestatyn am ennill Cwpan Cymru yn y Drenewydd. Dywedodd y Cynghorydd Jones ei fod yn falch iawn bod y tîm yn dod o ysgol yn Sir Ddinbych.
(d) Talodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill deyrnged i'r Pennaeth Cyllid ac Asedau, Paul McGrady, a fydd yn gadael yr Awdurdod Lleol i ddechrau swydd newydd. Soniodd y Cynghorydd Thompson-Hill am waith a chyflawniadau Paul yn ystod ei flynyddoedd yn Sir Ddinbych. Ar ran yr holl Aelodau, dymunodd y Cynghorydd Thompson-Hill y gorau iddo ar gyfer y

dyfodol a diolchodd iddo am ei holl waith caled a phopeth yr oedd wedi ei wneud ar gyfer Sir Ddinbych. Diolchodd Paul McGrady i’r Aelodau am eu dymuniadau da.

(e) Rhoddodd y Cynghorydd Joan Butterfield ddeiseb i'r Cadeirydd ar ran gyrwyr tacsis y Rhyl a oedd wedi cael tua 600 o lofnodion i gefnogi eu hawl i wisgo trowsusau byr. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith, AD a’r Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r ddeiseb yn cael ei phasio ymlaen i'r adran berthnasol ac y byddai Pennaeth yr Adran yn ymateb o fewn yr wythnosau nesaf.

**6 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2015.

**Materion yn Codi** - Tudalen 8 Eitem 5 – Cofnodion (Treth y Cyngor a Materion Cysylltiedig).

Cadarnhaodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts fod llythyr wedi ei anfon at Leighton Andrews ac i CLlLC yn eu gwahodd i fynychu'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 9 Gorffennaf, a’n bod yn aros am ymateb ynghylch pwy fyddai'n mynychu.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2015 fel cofnod cywir ac y dylai’r Arweinydd eu llofnodi.*

**7 DOGFEN GYFLENWI FLYNYDDOL AR GYFER Y CYNLLUN CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i'r Aelodau gymeradwyo'r fersiwn drafft terfynol Dogfen Gyflenwi Blwyddyn 4 y Cynllun Corfforaethol er mwyn ei chyfieithu a'i chyhoeddi.

Diolchodd y Cynghorydd Thompson-Hill i'r Cynghorydd Barbara Smith am y gwaith yr oedd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran y Cynllun Corfforaethol.

Mae angen penderfyniad i gymeradwyo fersiwn drafft terfynol o Ddogfen Gyflenwi Blwyddyn 4 y Cynllun Corfforaethol. Mae Dogfen Gyflenwi wedi ei chreu ar gyfer pob blwyddyn o'r Cynllun Corfforaethol. Diben y Ddogfen Gyflenwi yw amlinellu rhai o'r prosiectau allweddol a fyddai’n cael eu cychwyn a/neu eu darparu yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer pob un o'r 7 blaenoriaeth, gyda'r bwriad o ddangos sut y mae’r Cynllun Corfforaethol yn effeithio ar y gwaith sy’n cael ei wneud.

Amlinellwyd cyfraniad y Cyngor i Gynllun Lles Sir Ddinbych yn ystod 2015-16. Byddai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi ar y wefan er mwyn i’r rheoleiddwyr, y cyhoedd a’r partneriaid ei gweld.

Cafwyd trafodaeth a gofynnodd yr Aelodau gwestiynau. Codwyd y materion canlynol:

- Cysondeb o'r flwyddyn flaenorol. Dywedwyd na fu unrhyw sôn, yn y Cynllun Corfforaethol, am waith dylunio Adolygiad Ysgolion Rhuthun. Eglurwyd fod

gwaith ar y gweill ac y byddai gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chynnwys o fewn y Cynllun Corfforaethol i adlewyrchu hyn.

- Mae Sir Ddinbych Ddigidol yn dal yn y broses o gael ei chwblhau ar gyfer ardaloedd gwledig.
- Mae Swyddog Arweiniol Strategol y Gymraeg wedi ei benodi i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Cymraeg. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai Strategaeth y Gymraeg yn cael ei hystyried yn fanylach.
- Trafodwyd cyflwr y ffyrdd yn y sir. Cafwyd strategaeth gyllido 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru. Mae ffynonellau cyllid pellach yn cael eu harchwilio er mwyn cynnal a chadw'r ffyrdd yn y dyfodol.
- Pont Rhuddlan. Mae'r bont yn strwythur CADW. Nid oes gan CADW unrhyw arian ar gyfer y gwaith atgyweirio sy'n ofynnol. Yn anffodus, nid oes gan y Cyngor arian ar gael i Sir Ddinbych i gynorthwyo gyda'r gwaith o atgyweirio'r bont.
- Rydym yn aros am ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr ysgol ffydd newydd. Mater arall oedd y safle arfaethedig, sy'n profi'n ddadleuol. Disgwylir penderfyniad ynghylch hyn. Mae'r ysgol ffydd yn dal yn flaenoriaeth addysg.
- Dywedwyd fod sbwriel a thipio anghyfreithlon yn y sir yn broblem. Mae Sir Ddinbych yn cyflogi Swyddog Cadwch Gymru'n Daclus, John Kelly, sydd ar gael i fynychu Grwpiau Ardal yr Aelodau ar gais.
- Cafodd cynlluniau i fyfyrwyr gymryd rhan ynddynt eu hannog, e.e. Menter yr Ifanc.
- Cadarnhawyd bod y Cynlluniau Tref ac Ardal yn endid ar wahân i'r Cynllun Corfforaethol. Mae cyllideb wedi ei chytuno arni i sicrhau bod Cynlluniau Tref ac Ardal yn cael eu cyflwyno a'u cyhoeddi.
- Mae sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl yn fater allweddol i Sir Ddinbych. Mae risgiau yn bodoli oherwydd y sefyllfa ariannol anodd sydd ohoni, ond mae'r Sir yn benderfynol o amddiffyn defnyddwyr gwasanaeth a phlant.
- Cododd y Cynghorydd Alice Jones faterion yn ymwneud â Bodelwyddan, yn enwedig gan nad oedd wedi ei gynnwys yn y Cynlluniau Tref ac Ardal. Eglurwyd bod fersiwn drafft o Gynllun Tref Bodelwyddan yn derbyn sylw.

Cytunwyd y byddai ychwanegiadau yn cael eu gwneud i'r Ddogfen Gyflenwi Flynyddol cyn ei chwblhau, ei chyfieithu a'i chyhoeddi.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar y newidiadau uchod a gytunwyd arnynt, bod yr Aelodau yn cymeradwyo fersiwn drafft o Ddogfen Gyflenwi Flynyddol y Cynllun Corfforaethol.*

## 8 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd Ei Anrhydedd y Barnwr Ian Trigger, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, yr Adroddiad Blynyddol (a gylchredwyd yn flaenorol).

Bu i'r Barnwr Trigger longyfarch y Cynghorwyr Gwyneth Kensler ac Ann Davies ar gael eu penodi'n Gadeirydd ac Is-gadeirydd yn y drefn honno.

Dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn ac mae'n ymwneud â'r flwyddyn galendr o fis Ionawr i fis Rhagfyr 2014 yn unig. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno adroddiad yn flynyddol i'r Cyngor Llawn er mwyn rhoi gwybod i'r Aelodau am dueddiadau, materion o ran cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Aelodau yn gyffredinol ar draws y Sir a gwaith y Pwyllgor o ran codi safonau ymddygiad ar lefel y Sir yn ogystal ag ar lefelau Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned.

Mae dull rhagweithiol wedi ei gymryd o ran y gwaith a wneir gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau. Diben mynychu cyfarfodydd Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned yw cynorthwyo, yn hytrach na beirniadu.

Mae Fforwm Safonau Gogledd Cymru wedi ei sefydlu i rannu arfer da a dysgu oddi wrth ddulliau ein gilydd wrth godi safonau, rhannu cost unrhyw ddigwyddiad hyfforddi a datblygu dogfennau a allai gynorthwyo Swyddogion Monitro, fel protocolau hunan reoleiddio neu weithdrefnau gwrandawiadau safonau.

Diolchodd y Barnwr Trigger i'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro am eu gwaith caled ar gyfer y Pwyllgor Safonau ac am drefnu a chynnal digwyddiadau hyfforddi hanfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.*

**9 PENODI AELODAU LLEYG I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) er mwyn i'r Aelodau benodi dau aelod lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Safonau.

Oherwydd ymddeoliad dau aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, roedd angen penodi dau aelod annibynnol newydd.

Mae'n ofynnol bod unrhyw swydd wag ar gyfer aelod annibynnol yn cael ei hysbysebu mewn o leiaf dau bapur newydd lleol. Sefydlwyd Panel Penodiadau Arbennig ac ymgynghorwyd â'r holl Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned er mwyn ystyried enwebu aelod o'r Panel.

Argymhellodd y Panel Penodiadau Arbennig mai'r ddau unigolyn mwyaf priodol i eistedd ar y Pwyllgor Safonau fel aelodau lleyg yw:-

(i) Anne Mellor
(ii) Julia Hughes

***PENDERFYNWYD*** *penodi Anne Mellor a Julia Hughes yn Aelodau Lleyg Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.*

**Ar y pwynt hwn (1.05 p.m.) cafwyd toriad am ginio.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 2.00 p.m.**

Ar y pwynt hwn, cytunwyd i newid trefn y rhaglen gan fod yn rhaid i'r Cynghorydd Jason McLellan adael y cyfarfod yn fuan.

**10 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jason McLellan Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15.

Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor, dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 i gael Pwyllgor Archwilio. Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yw pwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer y diben hwn.

Mae prif feysydd gwaith y Pwyllgor fel a ganlyn:

- Rôl Archwilio sy'n ystyried adolygiadau archwilio mewnol, archwiliadau allanol a'r strategaeth archwilio mewnol.
- Rheoli Risg.
- Rheolaeth Ariannol.
- Adolygu a monitro polisïau meysydd fel twyll, llygredd a rhannu pryderon.
- Rheoli Gwybodaeth, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data.
- Monitro ac adolygu gweithrediad cyfansoddiad y Cyngor.
- Monitro a Diweddaru'r Cynllun Gwella Llywodraethu.
- Adolygu cwynion a'r polisi cwyno ac ystyried adborth gan gwsmeriaid.

Diolchodd y Cynghorydd Jason McLellan i bob aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac i Paul Whitham (Aelod Lleyg), y Pennaeth Archwilio Mewnol, y Prif Gyfrifydd ac i Paul McGrady am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

***PENDERFYNWYD*** *- bod yr Aelodau yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.*

**11 ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU ARCHWILIO'R CYNGOR**

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio (a gylchredwyd yn flaenorol) i'r Aelodau ei ystyried.

Er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 6.3.7 Cyfansoddiad y Cyngor, mae'n rhaid i Bwyllgorau Archwilio adrodd yn flynyddol i'r Cyngor llawn am eu gwaith a gwneud argymhellion ar raglenni gwaith y dyfodol a dulliau gweithio diwygiedig os yn briodol.

Byddai dau fersiwn o'r Adroddiad Blynyddol ar gael - fersiwn cryno a fersiwn llawn.

Byddai'r Adroddiad Blynyddol yn dilyn y fformat cryno fel y cymeradwywyd gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio. Byddai hyn yn rhoi trosolwg cryno

i'r darllenydd o sut y mae archwilio yn gweithredu, gwaith a ymgymerwyd gan y tri Pwyllgor Archwilio ac yn hysbysu trigolion ynghylch sut y gallant gymryd rhan a chyfrannu at y broses archwilio.

Yn ogystal â chynnwys crynodeb o benderfyniadau pob Pwyllgor Archwilio, mae'r Adroddiad Blynyddol yn canolbwyntio ar amlinellu gwaith y Pwyllgorau Archwilio o ran herio cynlluniau'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol erbyn 2017.

Yn y dyfodol, y pedwar maes allweddol y bydd y Pwyllgorau Archwilio yn canolbwyntio arnynt wrth bennu eu rhaglenni gwaith yw:

- Y blaenoriaethau corfforaethol a chyflwyno'r Cynllun Corfforaethol.
- Arbedion yn y gyllideb a'u heffaith ar Sir Ddinbych a'i thrigolion.
- Meysydd blaenoriaeth uchel eraill y gall archwilio ddylanwadu arnynt ac effeithio ar newid.
- Meysydd eraill brys neu annisgwyl o flaenoriaeth uchel.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau'n nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Archwilio ar gyfer 2014/15*

**12 PENODI I'R PANEL HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ar gyfer penodi un aelod o'r Grŵp Llafur i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Panel) am o leiaf un flwyddyn.

Mae aelodau'r Panel yn cynnwys aelodau etholedig o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol. Oherwydd ymddiswyddiad y Cynghorydd Bill Tasker mae angen penodi aelod etholedig newydd ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych.

Cynigiodd y Cynghorydd Peter Prendergast y Cynghorydd Brian Blakeley i wasanaethu ar Banel yr Heddlu a Throsedd.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Brian Blakeley i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Panel) am o leiaf un flwyddyn.*

**13 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Joe Welch y Rhybudd o Gynnig canlynol ar ran y Grŵp Annibynnol ar gyfer sylw'r Cyngor Llawn:

Gyda'r nod o arbed arian i Gyngor Sir Ddinbych, byddai'r grŵp Annibynnol yn hoffi cynnig bod treuliau aelodau am fynychu cyfarfodydd yn cael eu trafod ymhellach yn y Gweithdy Cyllideb ar 5 Mehefin 2015.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y byddai'r eitem yn cael ei hychwanegu at raglen y Gweithdy Cyllideb ar 5 Mehefin 2015.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Grŵp Annibynnol ynghylch trafod treuliau aelodau am fynychu cyfarfodydd yn cael ei gynnwys fel eitem ar raglen y Gweithdy Cyllideb ar 5 Mehefin 2015.*

## 14 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (a gylchredwyd yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

## 15 POLISI TÂL

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol).

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gofyn i Awdurdodau Lleol baratoi datganiadau ar bolisïau tâl. Mae'n rhaid i'r datganiadau hyn fynegi polisïau'r awdurdod mewn perthynas ag ystod o faterion yn ymwneud â thâl ei weithlu; yn enwedig o ran uwch aelodau staff (neu "brif swyddogion") a gweithwyr ar y cyflogau isaf. Mae'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiadau ar Bolisïau Tâl yn flynyddol, a'u cyhoeddi ar y wefan berthnasol.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â hyn.

***PENDERFYNWYD:***

*I. Bod y Cyngor yn cytuno ar y Datganiad ar Bolisïau Tâl ar gyfer 2015/16.*
*II. Y bydd y Cyngor yn talu'r codiadau tâl costau byw cenedlaethol blynyddol i Brif Swyddogion pan benderfynir gwneud hynny yn unol â gofynion cytundebol presennol.*
*III. Sefydlu Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol i benderfynu ar daliadau a chydnabyddiaeth i Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor, sy'n cynnwys y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth.*
*IV. Y gall y Prif Weithredwr roi honorariwm o hyd at 15% o dâl gwirioneddol Penaethiaid Gwasanaeth am gyfnod nad yw'n hwy na 12 mis, pan fo gofyn iddynt gyflawni dyletswyddau ychwanegol ar ben eu swyddi gwirioneddol am gyfnod o amser. Fel arfer, byddai hyn i gyflenwi yn ystod absenoldeb tymor hir; yn dilyn ailstrwythuro pan fo cyfrifoldeb am wasanaethau ychwanegol wedi eu rhoi i'r Pennaeth Gwasanaeth; neu gyfrifoldeb am brosiect mawr y tu hwnt i'w portffolio arferol.*

DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 2.50 P.M.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **7 Gorffennaf 2015** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Cynghorydd Julian Thompson-Hill** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid** |
| **Teitl:** | **Cyllideb 2016/17** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad ar y broses i ddarparu cyllideb refeniw ar gyfer 2016/17 ac yn gosod cam nesaf cynigion y gyllideb.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu diweddariad ar y sefyllfa ddiweddaraf a nodi'r cynigion yn Nhabl 1, cymeradwyo'r cynigion yn Nhabl 2 a chynnig pellach a gyflwynwyd gan aelodau etholedig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi cynigion arbedion Cam 4 a restrwyd yn Nhabl 1 a chymeradwyo'r cynigion a restrwyd yn Nhabl 2.

Cymeradwyo'r cynnig a gyflwynwyd gan yr aelodau i beidio â thalu treuliau i aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd fel arsylwyr.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Ym mis Chwefror 2014, dechreuodd y cyngor ymagwedd newydd tuag at bennu cyllideb, sef Rhyddid a Hyblygrwydd. Y diben oedd nodi arbedion i gyfrannu at gyllidebau 2015/16 a 2016/17. Roedd y broses yn cynnwys dadansoddiad llawn o holl linellau'r gyllideb a chyfres o weithdai cyllideb gydag aelodau etholedig. Cyflwynodd y broses gyllideb gytbwys ar gyfer 2015/16 a nodi cynigion ar gyfer 2016/17.

Mae'r broses wedi parhau gyda'r ffocws ar 2016/17 a chynhaliwyd dau weithdy cyllideb i aelodau ar 23 Chwefror a 26 Mawrth. Roedd y ddwy sesiwn hon yn canolbwyntio'n bennaf ar gynigion a ohiriwyd o weithdai cyllideb blaenorol. Cynhaliwyd trydedd sesiwn a oedd yn canolbwyntio ar gynllunio ariannol ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol ar 5 Mehefin. Yn y gweithdy, fe hysbyswyd yr aelodau o'r tybiaethau allweddol o fewn cynlluniau tymor canolig y cyngor - yn benodol, roeddent yn amlinellu'r ansicrwydd ynghylch lefel setliadau Grant Cynnal Refeniw'r dyfodol.

Mae'r bwlch yn y gyllideb a ragwelir ar gyfer 2016/17 yn tua £8.8m. Mae arbedion o £2.7miliwn wedi eu cymeradwyo fel rhan o'r broses bresennol (Yng

Ngham 1 a 2) a gymeradwywyd ym mis Medi a Rhagfyr 2014) sy'n golygu bod y bwlch sy'n weddill tua £6.1miliwn. Caiff y bwlch yn y gyllideb ei gyfrifo drwy gymhwyso cyfres o dybiaethau. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw lefel y Setliad i awdurdodau lleol ar ffurf Grant Cynnal Refeniw. Mae pob newid yn y ganran i werth y Setliad yn cyfateb i tua £1.4m. Mae lefel sylweddol o ansicrwydd ynghylch y Setliad Llywodraeth Leol tebygol ar gyfer 2016/17 ac mae hyn yn debygol o aros yr un fath dros y misoedd nesaf. Hyd at fis Mai 2013, roedd gwerth y setliad yn gymharol gyson â'r arwyddion blaengynllunio a gyhoeddwyd yn genedlaethol yn 2011. Ers hynny, ni fu unrhyw setliadau aml-flwyddyn ac mae arwyddion wedi newid yn gyson rhwng ac o fewn blynyddoedd ariannol. Yn absenoldeb gwybodaeth Setliad fwy dibynadwy, rhaid i gynlluniau'r gyllideb barhau i ddatblygu cynigion i gwmpasu amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd. Bydd y Setliad Drafft ar gyfer llywodraeth leol yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref.

Hyd yma, mae gweithdai cyllideb pellach wedi'u trefnu ar gyfer 26 Hydref a 14 Rhagfyr. Wrth i'r broses ar gyfer 2016/17 gael ei datblygu ymhellach, mae'n debygol y bydd yn angenrheidiol i drefnu mwy o weithdai yn ystod yr hydref. Mae siart yn dangos y broses gyllideb ynghlwm er gwybodaeth yn Atodiad 1. Mae'r siart yn amlinellu'r broses i sicrhau arbedion 2016/17 ac mae'n adeiladu ar y broses a ddechreuodd ym mis Mawrth 2014. Y 'cyfnodau' arbed a gyfeirir atynt yw'r pwyntiau penderfyniad a gymerwyd i'r Cyngor i'w cymeradwyo. Mae camau 1-3 eisoes wedi cael eu cymeradwyo ac felly mae'r siart yn dechrau ar Gam 4.

Bydd cynigion Cam 4 yn y tablau isod yn cyfrannu £1.290m tuag at ddiwallu bwlch y gyllideb ar gyfer 2016/17. Mae asesiad o effaith ar gael ar gyfer pob eitem yn adain Llyfrgell yr Aelodau ar system Modern.Gov.

Mae dolen gyswllt electronig i'r dogfennau isod:

https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ecSDDisplay.aspx?NAME=SD703&ID=703&RPID=1764375&sch=doc&cat=13602&path=13602&LLL=0

Mae rhai o'r eitemau eisoes wedi'u gweithredu neu'n cael eu gweithredu dan awdurdod ddirprwyol i Benaethiaid Gwasanaeth. Cyflwynir y rhain i'r Cyngor er gwybodaeth a chyflawnrwydd i ddeall yr effaith ar wasanaethau a'u cyfraniad at darged cyffredinol y gyllideb. Mae'r eitemau yn ymwneud ag ailstrwythuro rheolaeth fewnol a chyfanswm o £640k fel y nodir yn Nhabl 1:

**Tabl 1**

| **Cyf** | **Maes Gwasanaeth** | | **£'000** |
|---|---|---|---|
| BIM401-03 | Gwella Busnes a Moderneiddio | Ailstrwythuro TGCh<br>Peidio Llenwi Swyddi Gwag | 224<br>75 |
| EBD401 | Datblygiad Economaidd a Busnes | Adolygiad Staffio | 150 |
| CFS401 | Uwch Dîm Arweinyddiaeth | Cyfuno Gwasanaethau Plant gyda Gwelliant a | 80 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Chynhwysiant Ysgolion | |
| LDHR401<br><br>LDHR402 | Cyfreithiol, Democrataidd ac Adnoddau Dynol | Adolygiad o'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol<br>Dileu swydd wag (Cymorth i Aelodau) | 20<br><br>20 |
| CSS402-3<br><br>CSS404 | Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol | Adolygiad Gweinyddol – dileu swyddi gwag<br>Adolygiad proses weinyddol cefnogi pecyn gofal. Peidio adnewyddu contract dros dro. | 44<br><br>27 |
| | | **Cyfanswm** | **640** |

Mae cynigion Cam 4 yn deillio yn dilyn cyflwyniadau manwl i weithdai'r gyllideb yn ddiweddar ac yn ceisio cymeradwyaeth fel rhan o broses y gyllideb fel y nodwyd yn Nhabl 2. Mae'r cynigion hyn yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd a moderneiddio:

**Tabl 2**

| **Cyf** | **Maes Gwasanaeth** | | **£'000** |
|---|---|---|---|
| HE401 | Rheoli Gwastraff | Newidiadau i batrymau sifft ac arferion gwaith | 170 |
| CE401<br><br>CE402 | Moderneiddio'r Gwasanaeth Llyfrgell a Model Canolfan Gymunedol | Gostwng yr oriau agor i ddiwallu'r galw.<br><br>Datblygu model canolfan gymunedol aml-ddefnydd ar gyfer rhai lleoliadau | 142<br><br>80 |
| FA401 | Strategaeth Gofod Swyddfa | Rhesymoli swyddfeydd trwy ddefnydd mwy effeithiol o dechnoleg ac arferon gweithio'n hyblyg. Arbediad yn seiliedig ar adael un adeilad. | 258 |
| | | **Cyfanswm** | **650** |

Yn y gweithdy cyllideb ar 5 Mehefin, rhoddwyd ymrwymiadau y byddai asesiadau effaith ar gyfer y cynigion uchod ar gael i'r aelodau cyn cyflwyno'r adroddiad i'r cyngor, ac os byddai'r aelodau'n codi pryderon dilys am unrhyw un o'r eitemau a nodwyd yn Nhabl 2, gellid gohirio'r rhain tan fis Rhagfyr. No concerns have been raised and therefore the proposals are presented for approval.

Ar hyn o bryd, cynhelir cyfres o gyfarfodydd gyda'r gwasanaethau sy'n adolygu cyllidebau ac yn ystyried cynigion newydd i'r gyllideb. Bydd y cynigion hyn yn cael eu datblygu a'u cyflwyno i'r aelodau yn yr hydref yng ngweithdai'r gyllideb.

Yn ogystal â hyn, gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno unrhyw gynigion eu hunain fel rhan o'r broses ac mae ffurflen wedi'i darparu ar gyfer hyn. Cafwyd cynnig gan yr aelodau yn y gweithdy ym mis Mehefin i beidio â thalu treuliau i aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd fel arsylwyr – h.y. rhai nad ydynt yn aelodau o bwyllgor neu heb eu gwahodd yn benodol i fynychu cyfarfod. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £900 y flwyddyn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Efallai y bydd ar y Cyngor angen sicrhau arbedion a mesurau eraill o oddeutu £8.8 miliwn dros y flynedd ariannol nesaf.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Mae asesiadau o effaith ar gyfer pob cynnig ar gael fel papurau ategol ar y system Modern.gov.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw manwl at y broses ymgynghori sylweddol a wnaed i gyflawni cyllidebau 2015/16 a 2016/17 ac mae'r rhain wedi eu hamlygu isod.

Yn ychwanegol at adroddiadau rheolaidd ar y broses i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi'i hystyried gan CET, yr UDA, Briffio'r Cabinet a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae Pwyllgorau Archwilio wedi adolygu cynigion penodol ac roedd un yn seiliedig ar argymhellion gan grŵp tasg a gorffen aelodau / swyddogion.

Erbyn diwedd y broses pennu cyllideb 2015/16, roedd deg gweithdy cyllideb wedi'u cynnal gydag aelodau etholedig er mwyn archwilio cyllidebau gwasanaethau ac ystyried cynigion cyllidebau. Mae pum gweithdy pellach wedi'u trefnu hyd yma i ystyried cynigion a diwallu bwlch cyllideb 2016/17 ac efallai y bydd angen trefnu mwy wrth i'r broses fynd rhagddi.

Cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd i ystyried effaith cynigion y gyllideb ac mae trafodaethau parhaus rhwng rhai o wasanaethau'r Cyngor Sir a rhai Cynghorau Tref. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd ac mae trafodaethau penodol wedi eu cynnal gyda'r Heddlu.

Mae’r holl aelodau o staff wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â’r broses o osod y gyllideb a phan fydd cynigion yn newid i fod yn benderfyniadau, ymgynghorir yn llawn â’r staff yr effeithir arnynt, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau AD y Cyngor.

Ymgynghorwyd â’r Undebau Llafur trwy’r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Cytunwyd ar broses ar gyfer ymgysylltu â staff a’u cynrychiolwyr Undeb Llafur yn CBYLl. The proposals in this report were presented to LJCC on 24th June and no concerns were raised.

Mae grŵp gorchwyl a gorffen craffu wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar i asesu effaith y toriadau yn y gyllideb y cytunwyd arnynt eisoes.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae hon yn parhau’n broses anodd, a bydd rhai penderfyniadau anodd eu gwneud ar hyd y daith. Mae ymrwymiad a chefnogaeth aelodau etholedig yn y broses o wneud penderfyniadau ac archwilio’r broses yn hanfodol.

Nod proses y gyllideb yw sicrhau bod y Cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Wedi eu hymgorffori i mewn i'r broses mae nifer o bwyntiau adolygu er mwyn sicrhau ei bod yn aros ar y trywydd iawn a bod modd ei diwygio os nad ydyw. Mae'r ansicrwydd ynghylch lefel y setliad yn golygu y gall y bwlch yn y gyllideb a amcangyfrifwyd newid ar gyfer 16/17, ond mae'n rhaid i hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun y tebygolrwydd y bydd setliadau negyddol yn parhau yn y tymor canolig.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni strategaeth gyllideb effeithiol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y dyfodol.

Mae proses y gyllideb ei hun yn fesur rheoli risg, gyda'r nod o nodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd cynlluniedig ac amserol. Mae'r broses fel yr amlinellwyd yn cynnwys digon o gyfleoedd i adolygu a diwygio os oes angen. Bydd lefel y cynigion a nodwyd ym mis Mehefin drwy ymgynghori â gwasanaethau a lefel y cynigion a gyflwynwyd gan aelodau yn llywio gweddill y broses.


**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 1

# PROPOSED BUDGET PROCESS 2016/17



Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR

| **Cyfarfod** | **Eitem (Disgrifiad / Teitl)** | | **Pwrpas yr Adroddiad** | **Angen penderfyniad gan y Cyngor (oes/nac oes)** | **Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt** |
|---|---|---|---|---|---|
| **8 Medi 2015** | 1 | Rhybudd o Gynnig | Gwrth-ffracio | | Paul Penlington |
| | 2 | Aer SAC | | | Alan Smith / Liz Grieve |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **20 Hydref 2015** | 1 | Adroddiad Perfformiad Blynyddol | | Oes | Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Liz Grieve |
| | 2 | Adroddiad Gwella Blynyddol | | Oes | Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Alan Smith |
| | 3 | Is-ddeddfau Cerbydau Hacni | I'r Cyngor gymeradwyo diwygio is-ddeddfau mewn perthynas â Cerbydau Hacni | Oes | Y Cyng. David Smith /Nicky Jones |
| | | | | | |
| **Briffio'r Cyngor 2 Tachwedd 2015** | 1 | Diogelu a Gwarchod | | Amh. | Y Cyng. Bobby Feeley / Phil Gilroy / Leighton Rees |
| *(amseriad gwirioneddol yr eitem hon yn dibynnu ar gyhoeddiad LlC o'i gynigion mewn perthynas â'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Adroddiad yr Athro Donaldson a* | *2* | *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru (Adroddiad yr Athro Donaldson)* | *I drafod goblygiadau posibl yr argymhellion sy'n codi o'r argymhellion a gymeradwywyd ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych ac ar gyfer yr awdurdod addysg lleol* | Amh. | Y Cyng. *Eryl Williams/Karen Evans* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *ddaeth i ben ar 8 Mai, 2015)* | | | | | |
| | | | | | |
| **1 Rhagfyr 2015** | | | | | |
| | | | | | |
| **26 Ionawr 2016** | 1 | Cyllideb ar gyfer 2016/17 | Cytuno ar gyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 | Oes | Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Richard Weigh |
| | | | | | |
| **23 Chwefror 2016** | 1 | Treth y Cyngor | I'r Cyngor osod lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2016/17 | Oes | Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Richard Weigh |
| | 2 | Amserlen y Pwyllgor / Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol | Cymeradwyo amserlen y pwyllgor tan ddiwedd 2017 ac adolygu cydbwysedd gwleidyddol y pwyllgorau | Oes | Steve Price |
| | | | | | |
| **Briffio'r Cyngor 7 Mawrth 2016** | 1 | Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant | | Amh. | Y Cyng. Bobby Feeley / Nicola Stubbins / Colin Tucker |
| | | | | | |
| **12 Ebrill 2016** | 1 | Enwebiadau ar gyfer y swyddi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor | Cytuno ar yr enwebiadau. | Oes | Gary Williams |
| | | | | | |
| **Cyfarfod Blynyddol 10 Mai 2016** | 1 | Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor | Y Cyngor i benodi arweinwyr dinesig y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2016/17 | Oes | Gary Williams |
| | | | | | |
| **BRIFFIO'R CYNGOR 6 Mehefin 2016** | 1 | Dysgu o Rotherham - Panel Diogelu Corfforaethol | | Amh. | Y Cyng. Bobby Feeley / Nicola Stubbins |
| | | | | | |
| **5 Gorffennaf 2016** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **6 Medi 2016** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| **18 Hydref 2016** | 1 | Adroddiad Gwella Blynyddol | | Oes | Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Alan Smith |
| | | | | | |
| **BRIFFIO'R CYNGOR 14 Tachwedd 2016** | | | | | |
| | | | | | |
| **6 Rhagfyr 2016** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

***Nodyn ar gyfer swyddogion - Dyddiadau Cau ar gyfer Adroddiadau i'r Cyngor Llawn***

| *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | *Mai* | ***24 Ebrill 2015*** | *Gorffennaf* | ***22 Mehefin 2015*** |
| *Medi* | ***21 Awst 2015*** | *Hydref* | ***5 Hydref 2015*** | *Rhagfyr* | ***16 Tachwedd 2015*** |
| *Ionawr 2016* | ***11 Ionawr 2016*** | *Chwefror* | ***8 Chwefror 2016*** | *Ebrill* | ***24 Mawrth 2016*** |

Diweddarwyd 30/06/2015 SLW

Council Work Programme.doc

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag